

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ionawr 2024

Amser: 12.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr M Howells (Cadeirydd), J Cleverly, S Adan, J Harris, G Horton, A Pimm, C Reeks, J Reynolds and K Thomas

Yn bresennol: Paul Jones (Cyfarwyddwr Strategol – Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd), Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Y Ganolfan Gorfforaethol a Thrawsnewid), David Walton (Pennaeth Tai a Chymunedau), Silvia Gonzalez-Lopez (Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd), Stephen Jarrett (Pennaeth Seilwaith), Tracey Brooks (Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd), Elizabeth Bryant (Pennaeth y Gyfraith a Safonau), Tracy McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid), Meirion Rushworth (Pennaeth Cyllid), Mark Howcroft (Uwch Bartner Busnes Cyllid (Lleoedd a Chorfforaethol)), Leanne Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Democrataidd), Neil Barnett (Ymgynghorydd Craffu), Taylor Strange (Swyddog Llywodraethu) a Simon Richards (Swyddog Llywodraethu)

1 Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Linton

2 Datgan diddordeb

Dim.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2023 a 11 Rhagfyr 2023 yn gofnod gwir a chywir, gyda'r diwygiad canlynol:

27 Tachwedd 2023 – tudalen 8, pwynt 6 – **"Nododd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai sicrhau bod yr holl ffyrdd heb eu mabwysiadu'n bodloni'r safon ofynnol yn costio £12 miliwn, nad yw'n ymarferol o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol."** Roedd y Pwyllgor yn dymuno cynnwys mwy o fanylion o'r drafodaeth yn y cofnodion fel bod trigolion yn ymwybodol o'r broses o fabwysiadu ffyrdd. Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor y byddai hyn yn cael ei ddiwygio.

4 Cyllideb 2024-25 a Rhagolygon Ariannol Tymor Canolig

Gwahoddedigion:

- Paul Jones – Cyfarwyddwr Strategol – Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Rhys Cornwall – Cyfarwyddwr Strategol – Y Ganolfan Gorfforaethol a Thrawsnewid

- Meirion Rushworth – Pennaeth Cyllid
- David Walton – Pennaeth Tai a Chymunedau
- Silvia Gonzalez-Lopez – Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd
- Stephen Jarrett – Pennaeth Seilwaith
- Elizabeth Bryant – Pennaeth y Gyfraith a Safonau
- Tracey Brooks – Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd
- Tracy McKim - Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid

- Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid drosolwg byr o broses y gyllideb.

Buddsoddiadau a Phwysau Cyllidebol

Trafodwyd y canlynol:

Tai a Chymunedau

Diffyg yn y cymhorthdal Budd-dal Tai sy'n deillio o'r galw cynyddol am lety dros dro

- Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y gostyngiad yn y grantiau Cymunedau am Waith gan Lywodraeth Cymru a'i effaith ar wasanaethau digartrefedd. Gofynnodd a fyddai'r cyllid ychwanegol arfaethedig o £600,000 yn ddigonol, o ystyried y gorwariant o £1 miliwn o'r flwyddyn flaenorol. Gwnaeth hefyd ofyn am fuddsoddiad asedau strategol i fynd i'r afael â'r ddibyniaeth ar lety gwely a brechwast ar gyfer llety dros dro a digartrefedd. Dywedodd y Pennaeth Tai a Chymunedau fod gwaith parhaus gyda phartneriaid sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu mwy o lety cymdeithasol a phontio a phwysleisiodd y ffocws ar atal digartrefedd. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Strategol y pwysau cynyddol a'r angen am gynllun hirdymor i fynd i'r afael â digartrefedd, gan dynnu sylw hefyd at yr angen i fonitro effaith newidiadau grant a mireinio'r sefyllfa ariannol yn unol â hynny.

Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd

Costau sy'n gysylltiedig â'r angen cynyddol i gynnal a chadw coed

- Esboniodd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd fod y costau parhaus sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw coed, gan gynnwys yr angen am ymyrraeth ar gyfer gwahanol rywogaethau o goed, ar wahân i'r prosiect penodol sy'n mynd i'r afael â chlefyd coed ynn. Priodolir y costau cynnal a chadw i'r angen parhaus i reoli a chynnal a chadw coed ar dir cyhoeddus, priffyrdd mabwysiedig, ysgolion ac ardaloedd eraill oherwydd materion sy'n achosi difrod adeileddol a'r angen i gynyddu gorchudd coed. Mae'r gwaith cynnal a chadw parhaus hwn yn eithaf costus o ran adnoddau.
- Gofynnodd y Pwyllgor am y costau a ragwelir ar gyfer cynnal a chadw coed yn ystod y blynyddoedd nesaf, a chadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y ffigurau. Dywedodd y Pwyllgor fod angen cyfathrebu cliriach ynghylch eitemau'r gyllideb o'r fath. Cydnabu'r Pennaeth Cyllid yr awgrym o alinio adroddiadau cyllidebol er mwyn cael gwell eglurder.
- Gofynnodd y Pwyllgor am offer a galluoedd y Cyngor ar gyfer cynnal a chadw coed mewn perthynas â chlefyd coed ynn ac a fyddai unrhyw ran o'r £115,000 a ddyrannwyd yn mynd tuag at offer a pheiriannau. Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y rhan fwyaf o'r gwaith cynnal a chadw coed yn cael ei roi i gontractwyr allanol oherwydd yr angen am beiriannau arbenigol, fel craeniau, na fyddai'n gost-effeithiol i'r Cyngor fod yn berchen arnynt.
- Gofynnodd y Pwyllgor a allai'r gyllideb a ddyrannwyd o £115,000 ar gyfer cynnal a chadw coed yn y blynyddoedd dilynol amrywio, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr

Strategol y gallai amrywio yn seiliedig ar berfformiad yn y gorffennol a nodi diffygion coed.

Cau safle tirlenwi – colled incwm gysylltiedig.

- Gofynnodd y Pwyllgor am y buddsoddiad o £975,000 yn ymwneud â chau'r safle tirlenwi a'r golled incwm gysylltiedig. Esboniodd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd fod y safle tirlenwi ar safle Docks Way yn cyrraedd diwedd ei oes ac na fydd yn gallu derbyn gwastraff mwyach, gan arwain at golli incwm. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol nad oes cynlluniau ar gyfer safle tirlenwi newydd, gan mai'r duedd yw lleihau gwaredu a chynyddu ailgylchu a llosgi. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad ar effaith cau'r safle tirlenwi ar fusnesau masnachol yng Nghasnewydd. Rhoddodd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd wybod am y rheoliadau gweithle sydd ar ddod a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau wahanu ailgylchu, gan arwain at ostyngiad mewn gwastraff gweddilliol. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau casglu gwastraff i fusnesau. Cadarnhaodd yr ymateb y byddai'r Cyngor yn parhau â gwasanaethau casglu gwastraff, a byddai gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei gyfeirio at Barc Trident i'w waredu.
- Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai cau'r safle tirlenwi dim ond yn effeithio ar waredu gwastraff i'r safle tirlenwi, ac y byddai gweithrediadau masnachol a chyfleusterau gwaredu gwastraff y cyhoedd y safle yn aros yr un fath. Yn ogystal, dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y gallai fod angen i fusnesau canolig ystyried dulliau gwaredu gwastraff amgen, fel llosgi, oherwydd cost-effeithiolrwydd ac ystyriaethau treth.

Seilwaith

Taliadau gadael gorsaf fysis

- Cwestiynodd y Pwyllgor y pwysau o £225,000 ar gyfer taliadau gadael gorsaf fysis a'r diffyg dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Esboniodd y Pennaeth Seilwaith fod gweithredwyr trafndiaeth gyhoeddus yn talu tâl gadael i ddefnyddio'r gorsafoedd bysus, ond mae'r diwydiant bysus yn profi newidiadau sylweddol o ran cyllid. Mae diwedd cyllid pontio ar gyfer bysus ac ystyried cyllid newydd yn cyfrannu at y pwysau. Gallai cynyddu'r tâl gadael i dalu am y bwlch effeithio'n negyddol ar lwybrau bysus a thrigolion.
- Gofynnodd y Pwyllgor ynghylch nodi'r diffyg yn y gyllideb yn y gorffennol a oedd yn ymwneud â thaliadau gadael i fysis, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai cymorthdaliadau wedi talu am hyn yn y gorffennol. Gwnaeth hefyd drafod cyd-destun hanesyddol y mater, gan dynnu sylw at y ffaith nad datblygiad diweddar oedd y diffyg oherwydd diwedd cyllid pontio. Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y costau wedi cynyddu dros y blynyddoedd, gan arwain at y bwlch presennol yn y gyllideb. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd y ffigur yn cynrychioli costau gwirioneddol neu golled refeniw, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol ei fod yn golled refeniw. Gwnaeth hefyd drafod cyfraniadau cwmnïau bysus ac effaith y tâl gadael ar y diffyg yn y gyllideb. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Strategol y bwlch sylweddol rhwng y disgwyliad realistig o ran bysus yn gadael a'r refeniw a gyllidebwyd. Yn olaf, gofynnodd y Pwyllgor am fynd i'r afael â'r mater yn y dyfodol, ac esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai'r bwlch yn y gyllideb yn cael ei ddileu ar ôl i'r pwysau gael sylw.
- Mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynghylch cynnwys y costau bysus yn y gyllideb bob blwyddyn heb ddod o hyd i ateb. Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol mai un dewis arall fyddai trosglwyddo'r costau'n llawn i'r cwmnïau bysus, ond gallai hyn arwain at

ostyngiad sylweddol mewn gwasanaethau bysus. Soniodd y Pwyllgor am yr angen i aros am adroddiad Burns i asesu effaith unrhyw newidiadau.

- Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y Cyngor yn sybseiddio llwybrau bysus mewn gwahanol ffyrdd, ond roedd y buddsoddiad cyllidebol yn canolbwyntio'n benodol ar daliadau gadael. Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i ddeall y taliad presennol cyn penderfynu a oes diffyg. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y bwch yn y gyllideb wedi datblygu oherwydd gostyngiad yn nifer y teithiau bysus, gan arwain at ddiffyg. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid gyd-destun ychwanegol, gan roi gwybod bod llawer o gynghorau yn codi tâl ar weithredwyr bysus am gael mynediad at gyfleusterau bysus a'u defnyddio i dalu costau cynnal a chadw seilwaith. Cydnabu efallai nad yw'r tâl gadael presennol yn talu'r costau yn llawn ond byddai angen ystyried ei gynyddu'n sylweddol yn ofalus. Dywedodd y Pwyllgor fod angen i'r gost fesul taith gyd-fynd â'r costau cynnal a chadw gwirioneddol. Cydnabu'r Pennaeth Cyllid y sylw ac esboniodd fod angen yr addasiadau i'r gyllideb er mwyn sicrhau bod maint priodol i'r gyllideb. Gallai'r gost fesul taith fod yn bwnc i'w drafod yn ystod adolygiad y gyllideb.
- Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd y taliadau bysus yn ddychweliadol yn y gyllideb a pham nad oeddent yn cael eu cynnwys. Mynegodd bryderon am chwyddiant a'r effaith bosibl ar wasanaethau bysus, gan awgrymu y dylai'r gyllideb adlewyrchu'r costau parhaus hyn. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod cyllideb bresennol ar gyfer taliadau gadael, ac mae'r £225,000 a grybwyllwyd yn ostyngiad yn y llinell gyllideb honno. Bydd tâl yn parhau i gael ei godi ar gwmnïau bysus am ddefnyddio'r orsaf fysus, ac mae angen yr addasiad er mwyn sicrhau maint priodol i'r gyllideb. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai costau ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod, ac esboniodd y Pennaeth Cyllid y byddai'n dibynnu ar ffactorau fel defnyddwyr bysus a lefelau gwasanaeth. Cydnabu'r angen i ystyried datblygiadau yn y dyfodol, fel adroddiad Burns a darpariaethau tai a thrafnidiaeth canol y ddinas. Dywedodd y Pennaeth Cyllid y gallai fod arbedion yn gysylltiedig â'r gyllideb pe bai mwy o ddefnyddwyr a mwy o wasanaethau bysus yn y dyfodol. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd ystyried y ffactorau hyn yn y gyllideb a dangos dangosyddion o ystyriaethau yn y dyfodol. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd ac yn tybio lefel benodol o ddefnyddwyr bysus ar gyfer y flwyddyn nesaf a lefelau cymharol wastad ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Gellir gwneud addasiadau os oes newidiadau mewn gwasanaethau bysus a phatrymau defnyddwyr.

Cynnal a chadw fflyd – pwysau cyllidebol mewn perthynas â theiars a chyflenwadau eraill.

- Mynegodd y Pwyllgor bryderon am y pwysau cyllidebol parhaus ar gyfer teiars a chyflenwadau eraill, gan ofyn a fyddai hyn yn cael ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid, ar ôl i ffigur ymddangos yn y gyllideb, y tybir ei fod yn gost barhaol a pharhaus oni bai bod addasiad negyddol yn y flwyddyn ganlynol.
- Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd y contract cynnal a chadw yn cynnwys gwasanaethau fel amnewid teiars er mwyn osgoi taliadau ailadroddus, ac awgrymodd aildrafod y contract i gynnwys yr holl wasanaethau cynnal a chadw. Esboniodd y Pennaeth Seilwaith fod gwasanaethau eisoes yn cael eu sicrhau'n gystadleuol ac y sicrhau prynu priodol trwy contractau tymor neu fframwaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y contract am gyfnod penodol a bod prisiau rhannau'n tueddu i gynyddu dros amser. Gofynnodd y Cadeirydd a yw'r Cyngor yn prydlesu cerbydau, ac eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y drafodaeth yn ymwneud â chynnal a chadw cerbydau sy'n eiddo i'r Cyngor. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid cynnwys amnewid teiars yn nhâl y brydles ar gyfer atgyweiriadau llawn. Cydnabu'r

Cyfarwyddwr Strategol y gallai trafodaethau o'r fath fod wedi cael eu hystyried yn ystod caffael, ond mae angen ystyried ffactorau fel nifer y cerbydau a chostau cynyddol rhannau a chyflogau staff.

Adfywio a Datblygu Economaidd

Adnodd staffio i gyflawni'r rôl cleient mewn perthynas â gwasanaethau hamdden.

- Gofynnodd y Pwyllgor am amlinelliad eang o'r rôl newydd ac a oedd disgrifiad swydd wedi'i ysgrifennu ar ei chyfer. Esboniodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd fod y meysydd rheoli cyllid yn gymhleth, gyda dogfen â thua 600 tudalen yn amlinellu disgwyliadau'r Cyngor a'r gwasanaethau i'w darparu gan Casnewydd Fyw. Mae'n cael cyfarfodydd cyswllt misol gyda Casnewydd Fyw i drafod materion perthnasol, ond mae lle i wella o ran deall manylion manylach y cytundeb rheoli cyllid. Dywedodd y Pwyllgor fod angen mecanwaith gwell i roi adborth gan etholwyr ynghylch gwasanaethau Casnewydd Fyw. Awgrymodd ddilyn y mater hwn pan fo rhywun yn ei le i fynd i'r afael ag ef.
- Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd fod contractau cleient ar waith ond nid un yn benodol ar gyfer Casnewydd Fyw, sy'n gontract gwerth miliynau o bunnoedd. Mae'n credu y byddai cael adnoddau ychwanegol yn helpu i reoli'r contract yn fwy effeithiol, gan ei fod yn gofyn am gryn dipyn o'i amser ar hyn o bryd. Er na all warantu arbedion neu arbedion effeithlonrwydd ar hyn o bryd, mae'n credu y byddai cael mwy o ffocws a chraffu ar reoli contractau yn fuddiol, yn enwedig o ystyried adborth o adolygiadau archwilio. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Strategol fod Casnewydd Fyw yn darparu gwasanaethau ar ran y pwyllgor. Y nod yw sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o adnoddau i oruchwylio'r gwasanaethau hyn yn effeithiol. Ystyrir hyn yn gyfle i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a gwella'r gwaith o reoli'r contract yn gyffredinol.
- Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch a oes angen y swydd arfaethedig ar gyfer un person, gan ystyried nad oedd ei hangen o'r blaen. Gwnaeth hefyd dynnu sylw at y cyflog sylweddol o £65,000, sy'n swydd gymharol uwch o fewn y Cyngor yn ei farn ef. Gwnaeth gwestiynu'r arbedion neu'r buddion a fyddai'n cael eu cyflawni gan y swydd hon, yn enwedig mewn cyfnod o doriadau cyllidebol. Pwysleisiodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd bwysigrwydd mwyhau effeithlonrwydd ac enillion ar y contract gwerth miliynau o bunnoedd gyda Casnewydd Fyw. Roedd yn teimlo bod cael rhywun penodol i graffu ar y contract a sicrhau adroddiadau cywir i'r Cyngor yn angenrheidiol. Er ei fod yn cydnabod y gellir cael arbedion effeithlonrwydd ychwanegol, roedd yn dyrannu cyfran o'i amser ef ac amser rheolwr y gwasanaeth i'r dasg hon ar hyn o bryd.

Gofyniad cyllideb ynni ar gyfer canolfan hamdden newydd.

- Mynegodd y Pwyllgor amheumon am y ffigurau ynghylch y gofyniad cyllideb ynni ar gyfer y ganolfan hamdden newydd, a dywedodd fod £500,000 wedi'i ddyrannu i sybseiddio'r cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer eleni a'r flwyddyn nesaf, ond nid yw'n credu ei bod yn costio £500,000 i redeg y ganolfan hamdden. Mae'n awgrymu y gallai fod gwarged o'r ganolfan a allai dalu'r £500,000 sydd ei angen ym mlwyddyn tri o bosibl. Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol mai'r gyllideb bresennol sy'n gysylltiedig â Chanolfan Casnewydd ar gyfer ynni yw £500,000, sydd wedi cael ei thrin fel arbediad i'r Cyngor yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, deallwyd erioed y byddai angen dychwelyd yr arian hwn i'r gyllideb ar ôl i'r ganolfan hamdden ddechrau weithredu. Gwnaeth dynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi elwa o'r trefniant hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac y byddai'r arian yn cael ei ddyrannu yn ôl i'r gyllideb ym mlwyddyn tri.

- Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r costau ynni yn lleihau'n sylweddol, o ystyried natur dim carbon yr adeilad a'r buddsoddiad solar sylweddol. Roedd yn meddwl tybed a fyddai'r costau yn llawer llai na hanner miliwn o bunnoedd yn y dyfodol. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Strategol, gan esbonio bod y gyllideb wreiddiol ar gyfer costau ynni yn uwch. Gwnaed addasiadau pan gynyddodd prisiau ynni, a chyflwynwyd rhai arbedion net y llynedd. Trosglwyddo o nwy i drydan yw'r her. Mae'r arbedion o ddefnyddio trydan yn ymylol ar hyn o bryd o gymharu â nwy, gan fod pris nwy yn rhatach. Yr amcanestyniad hirdymor yw y bydd pris nwy yn cynyddu yn ôl yr angen, ac y bydd costau trydan yn is. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol na ellir defnyddio nwy wedi 2030, sy'n golygu, er bod rhywfaint o arbedion oherwydd effeithlonrwydd ynni, bod y ffaith na ellir defnyddio nwy wrth symud ymlaen yn gwrthbwysu rhai o'r arbedion hynny.

Y Gyfraith a Safonau

Mwy o gyfraniad i Wasanaeth y Crwner, sy'n deillio o adnoddau staffio ychwanegol a chostau rhedeg yr adeilad newydd.

- Gofynnodd y Pwyllgor am fewnbwn cynghorau eraill i gostau cynyddol Gwasanaeth y Crwner. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod cynghorau eraill yn cymryd rhan lawn yn y broses ac y byddant yn cyfrannu ar sail maint eu poblogaeth.
- Eglurodd y Pwyllgor mai'r isafswm buddsoddiad sydd ei angen o safbwynt Cyngor Dinas Casnewydd yw £85,000, sef cyfran y Cyngor o'r buddsoddiad.

Adnoddau (allanol a mewnol) sydd eu hangen i gefnogi'r Rhaglen Drawsnewid.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oes cynlluniau i ystyried polisi Llywodraeth Cymru o ddileu elw o ofal plant wrth edrych ar drawsnewid gofal plant. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Strategol at yr agenda Dileu a'r timau trosglwyddo rhanbarthol ac yng Nghasnewydd sy'n gysylltiedig â hi, sydd eisoes yn edrych ar drawsnewid gofal plant. Byddai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad - Pobl yn rhan o'r gwaith parhaus sy'n gysylltiedig â'r trawsnewidiad. Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at y cysylltiad rhwng yr agenda Dileu a'r gwaith asedau, gyda'r nod o leihau'r baich ar y Cyngor a sicrhau bod yr asedau cywir ar waith ar gyfer gwasanaethau plant.
- Mynegodd y Pwyllgor bryder am y ganran uchel o blant mewn gofal yn y sector preifat a'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg asedau presennol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod bwrdd asedau yn bodoli a rhoddodd wybod am gyfranogiad Pennaeth y Gwasanaethau Plant yn yr agenda honno.

Pobl, Polisi a Thrawsnewid

Pwysau'r gyllideb eiddo, gan gynnwys diffygion incwm a chostau cynnal a chadw ychwanegol

- Pan gafodd wybod am y pwysau prisiau mewn rheoli ystadau, gofynnodd y Pwyllgor am danwariant o £115,000 yn 2025-26 a ragwelwyd. Cytunodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid i edrych ar y ffigurau hyn a chadarnhau. ***(Yn dilyn y cyfarfod, eglurwyd nad oedd y £115,000 yn cyfeirio at danwariant yn y dyfodol, ond gwrthdroi pwysau cyllidebol dros dro a gyflwynwyd yn 2023/24. Cadarnhaodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod sefyllfa orwariant flwyddyn ar ôl blwyddyn.)***

Arbedion Cyllidebol Newydd ar gyfer Ymgynghori

02 - Trawsnewid Plasty Malpas Court yn Ganolfan Dysgu Cymunedol newydd. Er mwyn ateb galw newidiol cwsmeriaid, datblygu allgymorth cymunedol llyfrgell tra'n lleihau nifer y safleoedd ffisegol.

- Roedd y Pwyllgor o blaid trawsnewid Malpas Court oherwydd ei fod yn cael ei danddefnyddio, ond gwrthwynebodd gau Llyfrgell Pil, gan dynnu sylw at ei phwysigrwydd i'r gymuned pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a'i rôl ym maes addysg a dysgu iaith. Awgrymodd y Pwyllgor adleoli'r tîm Cymunedau am Waith i'r gofod llyfrgell yn Llyfrgell Betws a'i ddefnyddio ar gyfer gweithdai a gwasanaethau i bobl ifanc. Cydnabu'r Pennaeth Tai a Chymunedau bwysigrwydd llyfrgelloedd i gymunedau a mynegodd barodrwydd i ystyried mewnbwn y Pwyllgor yn ystod y broses ymgynghori.
- Cwestiynodd y Pwyllgor lwyth gwaith a chyfrifoldebau'r swydd Llyfrgellydd Cymunedol arfaethedig, a fyddai'n cymryd lle dwy swydd gradd pump. Gwnaeth fynegi pryder am un person yn delio ag ardal gyfan Casnewydd a gofyn am fwy o fanylion am gyfrifoldebau'r rôl. Esboniodd y Pennaeth Tai a Chymunedau y byddai modd rheoli'r llwyth gwaith o fewn y strwythur presennol, gyda chefnogaeth gan y rheolwr adfywio cymunedol a rheolwr y llyfrgell. Byddai'r rhaglen benodol o ddigwyddiadau a gwasanaethau yn cael ei llunio drwy ymgynghori a'i theilwra i fodloni anghenion y gymuned.

03 - Tâl am finiau newydd (gwastraff gweddilliol)

- Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai unrhyw eithriad i drigolion nad ydynt yn gallu rheoli diogelwch eu biniau, fel y rhai sy'n byw mewn ardaloedd sy'n dueddol o brofi lladrad neu sydd heb le storio diogel. Eglurodd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd mai dim ond i finiau sbwriel y mae'r tâl yn berthnasol, byddai blychau ailgylchu a biniau gwastraff gardd yn dal i gael eu rhoi am ddim. Mae rhoi biniau yn arwain at gostau sy'n gysylltiedig â rheoli ceisiadau a dosbarthu. Cydnabu Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd y gallai rhai lleoliadau fod yn fwy difreintiedig o ran lle mae biniau wedi'u lleoli, ond byddai'r mesur yn berthnasol yn gyfartal i bob trigolyn. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd trigolion yn gorfod talu am finiau newydd yn ystod y flwyddyn flaenorol ac am y referniw a gynhyrchwyd. Cadarnhaodd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd nad oedd y mesur wedi'i weithredu yn y flwyddyn flaenorol.
- Cadarnhaodd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd mai'r tâl am fin gwastraff gweddilliol newydd fyddai £23.70, ac mae hyn yn ymddangos yn yr adran Ffioedd a Thaliadau yn Atodiad 5 yr agenda.

04 - Ffioedd a Thaliadau Priffyrdd - Cynnydd o 8% mewn Ffioedd

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddyrannu arian ar gyfer problemau annisgwyl fel atgyweiriadau i bibellau a cheudyllau. Esboniodd y Pennaeth Seilwaith fod cyllideb referniw wedi'i dynodi'n benodol ar gyfer gwaith cynnal a chadw adweithiol, gan gynnwys atgyweiriadau i geudyllau. Defnyddir y gyllideb yn flynyddol i fynd i'r afael â'r problemau hyn wrth iddynt godi. Mae arolygwyr priffyrdd a chysylltiadau cwsmeriaid yn helpu i nodi ardaloedd y mae angen gweithredu arnynt o ran ceudyllau. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y bydd y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn rhoi gwybodaeth fanylach am gynnal a chadw ac atgyweirio priffyrdd, a drafodir mewn cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol nad yw'r gyllideb referniw graidd ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd wedi newid fel rhan o'r cynigion cyllidebol.

05 - Gostyngiad yn Ffi Rheoli Casnewydd Fyw

- Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r gostyngiad yn y ffi yn unol â'r cytundeb. Esboniodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd fod y cytundeb rheoli cyllid yn nodi y bydd y cyllid yn cael ei osod bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad yn y ffi wedi cael ei adolygu ers sefydlu'r ymddiriedolaeth a dyfarnu'r contract. Y llynedd, gweithredwyd gostyngiad o 10% yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol a'r angen i fusnesau

adolygu eu gweithrediadau a'u gwasanaethau. Cynigir gostyngiad arall o 10% eleni, gan gydnabod efallai na fydd angen dod yn ôl bob blwyddyn gyda'r un cais. Dywedwyd yr ystyrir bod gostyngiad pellach o 10% yn rhesymol ar yr adeg hon.

06- Cau'r Ganolfan Ddinesig am ddau ddiwrnod yr wythnos, gan leihau'r gwariant ar gyfleustodau

- Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r adeilad cyfan ar gau neu a fyddai rhai ardaloedd yn dal i gael eu defnyddio. Mynegodd bryder am effaith amrywiadau yn y tymheredd ar adeiledd yr adeilad. Cadarnhaodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid mai'r bwriad oedd cau bron pob rhan o'r adeilad, gyda dim ond ychydig o bocedi bach oedd angen eu cynnal a'u cadw yn parhau ar agor. Er enghraifft, roedd dal angen i'r staff teledu cylch cyfyng weithio o'r adeilad oherwydd y seilwaith. Esboniodd nad oedd modd rhannu'r system wresogi'n llawn oherwydd dyluniad hen ffasiwn yr adeilad. O ganlyniad, nod y cynnig oedd cau'r rhan fwyaf o'r adeilad, ac eithrio'r ardaloedd bach y gellir eu rheoli. Cydnabu'r Pwyllgor her amrywiadau yn y tymheredd a'r angen i wresogi'r adeilad pan aeth pobl i mewn, yn enwedig o ystyried pa mor agored i niwed yw'r adeiledd. Cytunodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid ei fod yn her. Dywedodd fod nod y cynnig i gau'r adeilad oedd ymestyn y penwythnos drwy symud y broblem wresogi o ddydd Llun i ddydd Mawrth, er bod her wresogi eisoes ar ddydd Llun. Esboniodd ymhellach fod dod o hyd i drefniadau i gau'r adeilad ar gyfer dau ddiwrnod ychwanegol yr wythnos yn her go iawn. Fodd bynnag, gwnaeth bwysleisio'r angen i ystyried yr holl opsiynau cyllidebol a nodi ffyrdd o gyflawni arbedion, gyda chau'r adeilad yn un o'r dulliau posibl.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd modelau amgen, fel cau'r adeilad am bedwar diwrnod bob pythefnos, wedi cael eu hystyried. Cydnabu'r Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y gellid bwydo modelau amgen gan graffu yn ôl ac esboniodd fod y cynnig hwn yn tynnu sylw at oblygiadau cost un diwrnod. Dywedodd y byddai modelau gwahanol a diwrnodau gwahanol yn arwain at arbedion ychydig yn wahanol, gan y cyfrifwyd hyn ar sail yr amrywiol nifer o ymwelwyr ar wahanol ddiwrnodau. Trafododd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid ymhellach yr ystyriaethau ymarferol, fel ymdrin â phost, yr oedd angen ei sganio a'i bostio'n gorfforol yn aml, hyd yn oed pe bai dulliau electronig yn cael eu defnyddio. Nododd nad oedd peirannau argraffu gan lawer o staff ac roeddent yn dibynnu ar ddod i'r adeilad dinesig i argraffu. Gwnaeth bwysleisio pwysigrwydd cyfleustra a soniodd am y posibilrwydd o ystyried lleoliadau eraill.
- Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch goblygiadau ymarferol cau'r Ganolfan Ddinesig am ychydig ddiwrnodau a gofynnodd am ddarpariaethau a wnaed i ddiogelu lles gweithwyr a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu, o ystyried colli rhyngweithio dynol a gwaith cydweithredol sy'n digwydd mewn swyddfa. Dywedodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod yr undebau wedi bod yn rhan o newidiadau i bolisiâu gweithio gartref. Esboniodd y byddai'n trafod yr arbedion arfaethedig yn fanylach gyda'r Fforwm Partneriaeth Gweithwyr. Eglurodd fod gan y rhan fwyaf o staff Cyngor Dinas Casnewydd gontractau a oedd yn caniatáu iddynt weithio gartref neu ddod i mewn i'r adeilad, ac roedd rhai wedi gwneud cais i weithio gartref yn llawn amser. Gwnaeth roi sicrwydd bod cytundebau gyda'r undebau ar waith, ond roedd hefyd yn ymwybodol o staff a oedd angen dod i mewn i'r swyddfa oherwydd amgylcheddau cartref anaddas neu resymau eraill. Roedd lles gweithwyr yn flaenoriaeth, ac roedd arolygon ymgysylltu a lles staff wedi'u cynnal i fynd i'r afael â phryderon.
- Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Strategol fod newidiadau eisoes wedi'u profi mewn arferion gwaith oherwydd y pandemig a rhoddodd wybod am fenter flaenorol o'r enw

"Y Normal Newydd," a oedd yn golygu ymgysylltu'n helaeth ag undebau a staff. Roedd gan lawer o weithwyr drefniant gwaith hybrid eisoes, gan ddod i'r swyddfa am 1 neu 2 ddiwrnod yr wythnos a gweithio gartref am weddill yr wythnos. Cydnabu gymhlethdod cynnal gwasanaethau a oedd yn gofyn am ryngweithio wyneb yn wyneb, yn enwedig mewn adrannau fel gwasanaethau cymdeithasol a oedd â drws ffrynt yn y Ganolfan Ddinesig. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Strategol hanes y Cyngor o weithio'n agos gydag undebau llafur i sicrhau lles gweithwyr. Rhoddodd wybod am yr ymdrechion parhaus i fynd i'r afael â phryderon a chynnal arolygon lles. Cydnabu hefyd yr angen i ystyried lleoliadau amgen i'r rhai nad ydynt yn gallu gweithio gartref yn llawn amser a phwysigrwydd cynnal ymgysylltiad a gwaith fîm.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw bosibiliadau o ddileu swyddi gyda'r cynnig. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw effeithiau staffio oherwydd bod yr arbedion yn seiliedig ar ddefnyddio llai o ynni.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd nifer yr ymwelwyr a nodwyd yn gynharach (250 i 300) yn cynnwys staff ac ymwelwyr. Eglurodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid mai dim ond staff oedd y niferoedd hynny mae'n debyg ac y gallai wirio hyn. Dywedodd fod nifer yr ymwelwyr â'r Ganolfan Ddinesig yn isel ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf yn dod am ofynion penodol fel adolygiad Trwyddedu Tacsî. Esboniodd y byddai nifer y cwsmeriaid yn ymweld yn dibynnu ar y gwasanaethau yn yr adeilad. Fodd bynnag, cydnabu'r angen i gasglu ffigurau mwy penodol ar nifer yr ymwelwyr. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch darparu ar gyfer ymwelwyr nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwyd o bosibl, ac sy'n dibynnu ar ddod i'r adeilad yn gorfforol. Gwnaeth bwysleisio pwysigrwydd hysbysu unigolion o'r fath y dylent ymweld rhwng dydd Mawrth a dydd Iau yn hytrach na rhwng dydd Llun a dydd Gwener a sicrhau bod lleoliadau eraill ar gael iddynt yn ôl yr angen.
- Gofynnodd y Pwyllgor am nifer y bobl sy'n ymweld â'r Ganolfan Ddinesig yn ddyddiol, yn benodol y rhai na allant weithio gartref ac sy'n dod i'r adeilad bum niwrnod yr wythnos. Dywedodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid nad oedd y data penodol ar nifer yr ymwelwyr dyddiol wedi'i gasglu eto. Dywedodd fod y system ar gyfer mewngofnodi yn gymharol newydd, a bod nifer yr ymwelwyr a roddwyd yn gynharach yn gyfartaledd dros gyfnod byr. Mae adolygiad wrthi'n cael ei gynnal o anghenion penodol adrannau a gwasanaethau o fewn y Cyngor rhag ofn i'r newidiadau arfaethedig gael eu gweithredu.

07 - Menter atal twyll

- Gofynnodd y Pwyllgor am y broses ar gyfer ymchwiliadau a heriau posibl os yw rhywun yn herio'r cyhuddiadau. Gofynnodd a fyddai proses apelio, o bosibl yn cynnwys Llys Ynadon. Ymatebodd y Pennaeth Cyllid gan ddweud y byddai angen iddo sefydlu ei fframwaith ei hun ar gyfer cynnal ymchwiliadau. Dywedodd y byddai gweithredu'r polisi yn canolbwyntio ar achosion lle'r oedd rhywun wedi hawlio budd-daliadau am o leiaf wyth wythnos pan na ddylai fod wedi gwneud hynny. Gwnaeth gyfeirio at y gwaith presennol ar y Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n cynnwys paru data ac ymchwiliadau sy'n arwain at gamau gweithredu. Esboniodd pe bai amheuaeth o beidio â rhoi gwybodaeth yn fwriadol, byddai'n mynd ar drywydd dirwyon. Yna gofynnodd y Pwyllgor am y broses apelio bresennol ar gyfer herio. Dywedodd y Pennaeth Cyllid nad oedd ganddo'r wybodaeth honno ond rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'n ei chael gan yr adran Refeniw.
- Gofynnodd y Pwyllgor am yr amcangyfrif o nifer yr unigolion â bwriad twyllodrus y flwyddyn. Ymatebodd y Pennaeth Cyllid gan ddweud bod rhagdybiaeth realistig wedi'i

gwneud yn seiliedig ar y wybodaeth gefndirol, a'r ffigur a oedd yn cael ei ddefnyddio oedd 350.

- Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth gefndirol am y cyfeiriad yn y gyllideb ddrafft at ddeddfwriaeth ar gyfer cynyddu costau pensiwn athrawon gan £3.4 miliwn. Esboniodd y Pennaeth Cyllid fod pob cynllun pensiwn sector cyhoeddus yn cael ei brisio a'i ailbrisio bob tair blynedd i sicrhau bod yr arian yn ddigonol i fodloni'r rhwymedigaethau. Yn achos y cynllun pensiwn athrawon, mae wedi cael ei ailbrisio, gan arwain at gynnydd o 5% yng nghyfraniad pensiwn y cyflogwr. Mae'r ffigur o £3.4 miliwn yn cynrychioli effaith y cynnydd hwn ar gyllideb y Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y cynllun pensiwn athrawon yn gynllun cenedlaethol yn y DU sy'n berthnasol i bob awdurdod ledled y wlad.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y diffyg yn y cynllun pensiwn oherwydd camreoli gan y rhai a oedd yn gyfrifol amdano. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y cynllun yn cael ei brisio gan wasanaeth Actiwari'r Llywodraeth, a bod y cynnydd mewn costau wedi'i warantu. Esboniodd fod disgwyl cadarnhad terfynol y byddai Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu gan lywodraeth y DU, ac os felly, byddai'r gost yn cael ei throsglwyddo i awdurdodau lleol. Sicrhodd y Pwyllgor y byddai'r cynnydd mewn costau pensiwn yn cael ei ariannu'n genedlaethol ac na fyddai'n effeithio ar y Dreth Gyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am fod yn bresennol.

Casgliadau:

Sylwadau i'r Cabinet ar y cynigion canlynol:

- a) Nododd y Pwyllgor y cynigion cyllidebol a oedd yn berthnasol i'r Cyfarwyddiaethau Corfforaethol a Lleoedd a chytunodd i anfon y cofnodion at y Cabinet fel crynodeb o'r materion a godwyd.
- b) Roedd y Pwyllgor yn dymuno gwneud y Cabinet yn ymwybodol o'r ffaith bod y Pwyllgor, drwy gydol y cyfarfod ac wrth holi'r Swyddogion, yn pryderu bod y wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori wedi'i chyflwyno'n wael a bod modd ei chamddeall yn hawdd. Er enghraifft, yn yr atodiadau ynghylch arbedion cyllidebol dros y Cynllun Ariannol Tymhorol Canolig, nid yw'r dogfennau'n nodi'n glir y bydd buddsoddiadau ym Mlynyddyn 1 yn parhau ym Mlynyddoedd 2 a 3. Roedd yr Aelodau'n pryderu y gallai'r un camddealltwriaeth gael ei wneud gan aelodau'r cyhoedd wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y Pwyllgor hefyd yn dymuno argymhell bod hyfforddiant cyllidebol manylach yn cael ei roi i'r holl aelodau er mwyn helpu i sicrhau bod y dogfennau'n cael eu deall yn llawn ac i alluogi craffu priodol i ddigwydd.
- c) Roedd y Pwyllgor yn dymuno gwneud y sylwadau canlynol i'r Cabinet ar y Cynigion o fewn y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol a Lleoedd:

02 - Trawsnewid Plasty Malpas Court yn Ganolfan Dysgu Cymunedol newydd. Er mwyn ateb galw newidiol cwsmeriaid, datblygu allgymorth cymunedol llyfrgell tra'n lleihau nifer y safleoedd ffisegol.

- Argymhellodd y Pwyllgor fod angen i'r Cabinet sicrhau bod yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer y cynnig arbedion hwn yn fach iawn. Awgrymodd y Pwyllgor hefyd fod opsiynau eraill nad yw'n ymddangos eu bod wedi'u hystyried, fel symud y Gwasanaeth Ieuenctid a Chymunedau am Waith i Lyfrgell Betws i sicrhau nad yw gwasanaethau'n cael eu colli.

- Yn ogystal, mynegwyd pryder am lwyth gwaith y swydd Llyfrgellydd Cymunedol newydd a fyddai'n cael ei chreu. Teimlai'r Pwyllgor y gallai fod yn ormod o waith i un person a phwysleisiodd yr angen am ddisgwyliadau realistig a sicrhau y byddai trigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn gweld gwahaniaeth sylweddol.

03 - Tâl am finiau newydd (gwastraff gweddilliol)

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon i'r cynnig hwn fynd yn ei flaen. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet fod y polisi'n cael ei weithredu gydag elfen o ddisgresiwn yn cael ei roi i'r Swyddogion ar weithredu, i ddiogelu'r unigolion mwyaf agored i niwed ledled y ddinas yn ogystal â disgresiwn i ddiogelu unigolion na allant fforddio biniau newydd neu a allai wynebu anawsterau wrth reoli eu biniau oherwydd eu sefyllfaedd byw.
- Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet y dylai'r Cyngor weithredu system codio/labelu gyda chod bar ar bob bin gyda'i gyfeiriad i atal dwyn neu gamddefnyddio.
- Teimlai'r Pwyllgor hefyd y dylid bod wedi nodi cost y biniau newydd ym mhrif sylwebaeth y cynnig arbedion ac nid yn yr adran Ffioedd a Thaliadau yn Atodiad 5 yn unig, gan ei gwneud yn anodd i'r aelodau sy'n ymateb i'r ymgynghoriad ddod o hyd i'r manylion.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn dymuno gadael sylwadau ar y buddsoddiadau Arbedion canlynol ar gyfer gwasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd:

Costau sy'n gysylltiedig â'r angen cynyddol i gynnal a chadw coed.

- Teimlai'r Pwyllgor na cafodd esboniad digonol ar y buddsoddiad arbedion hwn, dim ond bod contractwyr yn cael eu galw i mewn i gynnal a chadw coed. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu nad oedd y dogfennau yn ei gwneud yn glir bod y cynnydd yn y gyllideb yn £115k ym Mlwyddyn 1, yn £230k ym Mlwyddyn 2 ac yn £345k ym Mlwyddyn 3. Cwestiynodd y Pwyllgor yr angen am fuddsoddiad o £345k ym Mlwyddyn 3 a chwestiynodd hefyd yr angen am fuddsoddiad o £690k dros gyfnod o dair blynedd.

Cau safle tirlenwi – colled incwm gysylltiedig.

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y buddsoddiad arbedion hwn, ond roedd yn dymuno gwneud sylw bod yn rhaid ystyried effaith cael lorïau yn cludo gwastraff i leoliadau eraill ar ein targedau sero net i sicrhau nad yw'r nodau sero net yn cael eu peryglu.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu am y Ffioedd Hawlio Cŵn Strae o fewn y Ffioedd a'r Taliadau yn Atodiad 5 - ynglŷn â chodi £54.00 am bob ci sy'n cael ei hawlio o fewn 4 awr. Cwestiynodd y Pwyllgor degwch gweithredu'r ffi hon ar y lefel bresennol ac argymhellodd fod y Cabinet yn cael mewnwelediad gan y gwasanaeth i'w fuddsoddiad arfaethedig. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am fwy o wybodaeth gan y swyddogion ynghylch a fu cynnydd yn nifer y cŵn XL Bully yn cael eu hildio neu eu gadael ers i'r deddfau newydd ddod i rym.

04 - Ffioedd a Thaliadau Priffyrdd - Cynnydd o 8% mewn Ffioedd

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cynnig hwn.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn dymuno gadael sylwadau ar y buddsoddiadau Arbedion canlynol ar gyfer y gwasanaeth Seilwaith:

Taliadau gadael gorsaf fysis

- Roedd y Pwyllgor yn dymuno argymhell na ddylid ychwanegu taliadau gadael gorsaf fysis fel llinell gyllideb barhaol. Yn hytrach, dylid ei drin fel grant neu gymhorthdal

blynyddol i'r gweithredwyr bysus, yn amodol ar adolygiad bob blwyddyn yn seiliedig ar berfformiad y gwasanaethau bysus a ffactorau eraill. Awgrymodd y Pwyllgor mai'r ychwanegiad hwn i'r gyllideb i bob pwrpas yw'r Cyngor yn sybsideiddio prisiau siwrnai i aelodau o'r cyhoedd ac y dylid ei gydnabod felly. Rheswm ychwanegol dros ei asesu bob blwyddyn fel cymhorthdal yw y gallai gwaith parhaus Comisiwn Trafnidiaeth Burns gael effaith sylweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy a golygu efallai na fydd angen y cymhorthdal yn y dyfodol os bydd nifer y defnyddwyr yn cynyddu. Hefyd, dylai'r Cyngor ystyried effaith sero-net y taliad gorsaf fysus ac ystyried ffyrdd o leihau ei effaith ar brisiau a gwasanaethau bysus.

- Dywedodd y Pwyllgor hefyd yr hoffai ystyried y taliadau gwasanaethau bysus fel eitem agenda yn y dyfodol i'w hychwanegu at flaenraglen waith 2024-25. Gofynnodd y Pwyllgor lawer o gwestiynau i'r swyddogion ynghylch y gyllideb, costau rhedeg y gwasanaeth, rhent i Friars Walk, costau seilwaith ac nid oedd yn gwbl fodlon ar yr atebion a roddwyd. Mae'r ardal yn gymhleth ac mae rhwydwaith trafnidiaeth fforddiadwy, a chynaliadwy yn wasanaeth hanfodol, felly teimlai'r Pwyllgor y byddai'n briodol canolbwyntio a chraffu ar yr ardal.

Cynnal a chadw fflyd – pwysau cyllidebol mewn perthynas â theiars a chyflenwadau eraill.

- Roedd y Pwyllgor yn dymuno sicrhau bod y Cyngor yn dilyn arferion caffael a gwerth gorau er mwyn cael gwell gwerth am wasanaethau cynnal a chadw fflyd, yn ogystal ag ystyried aildrafod y contract ar gyfer gwasanaethau cynnal a chadw fflyd i gynnwys cost teiars a chyflenwadau eraill fel rhan o ffioedd prydles.

05 - Gostyngiad yn Ffi Rheoli Casnewydd Fyw

- Cydnabuwyd y byddai'r gostyngiad yn y ffi rheoli yn arwain at arbedion cost i'r Cyngor, ond mynegwyd pryder am yr effaith bosibl y gallai ei chael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir gan Casnewydd Fyw. Hoffai'r Pwyllgor wybod pa wasanaethau, os o gwbl, a allai gael eu torri gan Casnewydd Fyw o ganlyniad i'r gostyngiad yn y ffi rheoli ac adeg cyfarfod y pwyllgor, nid oedd y wybodaeth honno ar gael i'r Swyddogion.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn dymuno gadael sylwadau ar y buddsoddiadau Arbedion canlynol ar gyfer y gwasanaeth Adfywio a Datblygu Economaidd:

Adnodd staffio i gyflawni'r rôl cleient mewn perthynas â gwasanaethau hamdden.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd angen yr adnodd hwn, gan nad oedd angen y rôl yn y gorffennol, ac nad oedd unrhyw arwydd o'r hyn y byddai'r adnodd ychwanegol yn ei gynnwys gan nad oedd achos busnes wedi'i gyflwyno. Teimlai'r Pwyllgor nad oedd y Swyddogion yn gallu cyfiawnhau'n dderbyniol yr angen am y swydd ychwanegol neu a oedd angen iddi fod yn swydd lawn amser. Argymhellodd y Pwyllgor fod y Cabinet yn bodloni ei hun bod angen y swydd o ystyried y pwysau cyllidebol a'r angen i leihau adnoddau mewn mannau eraill.

06 - Cau'r Ganolfan Ddinesig am ddau ddiwrnod yr wythnos, gan leihau'r gwariant ar gyfleustodau

- Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cabinet yn gohirio'r cynnig arbedion hwn nes bod y dadansoddiad cywir o'r data yn cael ei ddeall a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar ein pobl a'n gwasanaethau. Mynegwyd pryderon bod angen mwy o ddata cyd-destunol, fel manylion am faint o amser roedd y 250-300 o staff a nodwyd yn gweithio yn y Ganolfan Ddinesig. Yn ogystal, nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am nifer y staff sy'n gweithio yn y Ganolfan Ddinesig yn llawn amser ac ni ystyriwyd yr angen i wresogi'r adeilad rhag yr oerfel yn fwy rheolaidd a allai arwain at gostau uwch yn gyffredinol. Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet, er bod y llinell gyllideb hon yn

ddeniadol fel arbediad, fod yr effaith yn sylweddol a dylid ei hystyried yng nghydestun ehangach ein hadolygiad Asedau cyffredinol, gan y gallai penderfyniadau nawr effeithio ar allu'r adolygiad hwnnw i resymoli asedau yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu bod yr amserlen yn rhy fyr i ymgynghori â staff a deall yr effaith ar les.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn dymuno gadael sylwadau ar y buddsoddiadau Arbedion canlynol ar gyfer y gwasanaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid:

Pwysau'r gyllideb eiddo, gan gynnwys diffygion incwm a chostau cynnal a chadw ychwanegol.

- Holodd y Pwyllgor golofn £'000 2025/26 y bydd y gwasanaeth yn ei hadolygu gyda Chyllid. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet fod yn fodlon ar y data cywir a roddwyd iddo a bod y dogfennau ymgynghori yn cael eu diwygio os oes angen. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y buddsoddiad arbedion hwn.

07 - Menter atal twyll

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cynnig hwn ond roedd yn dymuno argymhell i'r Cabinet sicrhau bod y Cyngor yn datblygu set gadarn o bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer gweithredu'r cynllun er mwyn sicrhau tegwch, fel cyflwyno set glir o bamedrau ar gyfer apeliadau, sut yr ymchwilir iddynt a sut y byddai'r Cyngor yn lliniaru'r posibilrwydd o gael dirwy pe bai apeliadau'n cael eu gwrthdroi yn erbyn yr awdurdod lleol. Rhybuddiodd y Pwyllgor hefyd y gallai costau buddsoddiad adnoddau ychwanegol mewn ymchwiliadau ac apeliadau olygu nad yw'r ddirwy statudol o £70 ar gyfer pob achos yn werth yr ymdrech sydd ei hangen i reoli'r broses.
- Hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y broses apelio ar gyfer y fenter hon pan fo ar gael.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn dymuno gadael sylwadau ar y buddsoddiadau Arbedion canlynol ar gyfer y gwasanaeth Cyllid:

Adnoddau (allanol a mewnol) sydd eu hangen i gefnogi'r Rhaglen Drawsnewid.

- Argymhellodd y Pwyllgor fod y Cabinet yn bodloni ei hun bod angen yr adnoddau hyn o ystyried y pwysau cyllidebol a'r angen am arbedion mewn manau eraill.

5 Adroddiad Cynghorydd Craffu

Gwahoddedigion:

- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

a) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Flaenraglen Waith, a rhoddodd wybod i'r Pwyllgor am y pynciau oedd i'w trafod yng nghyfarfod y pwyllgor:

Dydd Llun 19 Chwefror 2024, yr eitem ar yr agenda;

- Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd
- Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd

b) Taflen Weithredu

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y daflen weithredu i'r Pwyllgor a rhoddodd wybod am y camau gweithredu wedi'u cwblhau a'r camau gweithredu sydd dal heb eu cwblhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.10pm

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm